| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2017 |
| **TEITL** | Cyllideb a Diffyg Ariannol Ysgol Tywyn |
| **PWRPAS** | Ymateb i gais am wybodaeth gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried yr adroddiad |
| **AWDUR** | Owen Owens |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1. Cefndir

1.1 Ymhellach i Eitem 5 : Ysgolion gyda diffyg balansau' a'r penderfyniad isod yn cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion cynhaliwyd 29 Tachwedd 2016 –

> ***"3. YSGOLION GYDA DIFFYG BALANSAU***
> *Cyflwynwyd, yn unol â chais y Fforwm Cyllideb Ysgolion, adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu cefndir ynghyd ag atodiad a oedd yn rhestru'r ysgolion hynny sydd gyda diffyg balansau.*
> *Tynnwyd sylw bod y nifer o ysgolion gyda diffyg wedi cynyddu a bod 4 ysgol wedi bod gyda diffyg ar ddiwedd pob blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf ………*
> *Tynnwyd sylw bod Ysgolion Y Berwyn a Thywyn yn derbyn gwarchodaeth staffio ac awgrymwyd y dylid cynnal gwaith ymchwil pellach yng nghyd-destun ysgol Tywyn pam nad yw'r ysgol yn gallu gosod cyllideb gytbwys o fewn y gyllideb……………..*
> *(ii)* ***drefnu ymchwil pellach i gyllideb a chynnydd diffyg ariannol Ysgol Tywyn."***

## 2. Diweddariad

2.1 Mae arbenigwr annibynnol wedi cwblhau adolygiad ac wedi cyflwyno adroddiad (atodiad 1 - cyfrinachol)

2.2 Gofynnir i'r arbenigwr gyflwyno'i adroddiad ac wedi hynny agor y drafodaeth i aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion

2.3 Mae'r mater hwn hefyd yn gychwyn tuag at gyflawni elfennau o brosiect P1 yng Nghynllun y Cyngor 2017-18, sef:

- Dadansoddi sefyllfa gyllidol a chwricwlaidd ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion
- Adnabod anghenion lleiafswm staffio sydd ei angen er mwyn cynnal cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion;

- Argymell a chostio ble ddylai'r llinell warchodaeth staffio fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn i'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth honno wrth sefydlu cyllideb 2018/19